# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
## Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
## 30 Mehefin 2016

## SL(5)002 - Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro mân wall teipograffyddol yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2015.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**Fe'u gwnaed ar:** 20 Mehefin 2016
**Fe'u gosodwyd ar:** 23 Mehefin 2016
**Yn dod i rym ar**: 31 Gorffennaf 2016

## SL(5)004 - Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliad UE 828/2014 yn gwneud darpariaeth sy'n gofyn am ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ar absenoldeb glwten mewn bwyd.

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 yn darparu ar gyfer gorfodi gofynion Rheoliad yr UE yng Nghymru. Er enghraifft, pan fydd awdurdod gorfodi yng Nghymru yn amau bod rhywun yn methu â chydymffurfio â gofynion Rheoliad yr UE, yna gall yr awdurdod gorfodi naill ai gyflwyno hysbysiad gwella neu fynd yn syth at erlyniad (pa un bynnag y bernir sy'n briodol).

**Deddfau gwreiddiol:** Deddf Diogelwch Bwyd 1990; Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972

**Fe'u gwnaed ar:** 22 Mehefin 2016
**Fe'u gosodwyd ar**: 24 Mehefin 2016
**Yn dod i rym ar:** 20 Gorffennaf 2016